# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Bwthyn Bach**

**Ysgol yr Esgob**
**Lon yr Ysgol**
**Caerwys**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 5PZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Bwthyn Bach wedi'i gofrestru i ofalu am 19 o blant. Mae'r gwasanaeth yn gofalu am blant rhwng 2.5 a 12 oed, ac yn gweithredu o Ysgol yr Esgob, Caerwys. Mae hefyd yn derbyn plant sy'n mynd i Ysgol Lixwm. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 11.30 ac 18.00. Susan Clisham yw'r unigolyn cyfrifol a Holly Hollingsworth yw'r person â chyfrifoldeb. Saesneg yw iaith y gwasanaeth, ond caiff y Gymraeg ei defnyddio'n achlysurol. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg'.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Maent yn magu hyder ac yn datblygu'n briodol. Mae'r plant yn cael gofal gan ymarferwyr profiadol a medrus sy'n darparu gweithgareddau diddorol ac sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i'w diogelwch. Mae digonedd o deganau wedi eu gosod allan dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn rhoi lefel dda o ofal i'r plant ac yn cefnogi tîm o ymarferwyr ymroddedig. Mae partneriaethau cadarn â'r rhieni a'r ysgol, sy'n dda i'r plant.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru'r gwasanaeth.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom bedwar argymhelliad mewn perthynas â chynllunio gweithgareddau, cymorth cyntaf a'r amgylchedd. Gellir dod o hyd i'r rhain yn adran 5.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, ac maent yn cyfathrebu'n dda ac yn gwneud dewisiadau yn hyderus. Maent yn ffynnu am eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gwerthfawrogi. Maent yn dechrau dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu drwy amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gwneud cynnydd da ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn gwrando ar y plant ac yn parchu eu dewisiadau. Er enghraifft, gwnaeth y plant helpu eu hunain i'r teganau ar ddechrau'r prynhawn, a chwarae yn yr awyr agored fel yr oeddent wedi gofyn am gael gwneud. Roedd y plant yn hyderus ac yn cyfathrebu'n dda, er enghraifft, wrth sôn am ddigwyddiadau teuluol yn ystod amser cinio.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roeddent yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni, yn setlo'n dda ac yn dangos eu bod yn fodlon, er enghraifft, gan ganu'n ddigymell wrth iddynt wisgo ffedogau crefft. Roeddent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Er enghraifft, roedd rhywfaint o gyffro yn y babell chwarae.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr. Roeddent yn dysgu sut i rannu gyda chymorth ac anogaeth, er enghraifft drwy gymryd eu tro i gamu ar y llwybr rhifau. Roeddent yn dechrau deall anghenion pobl eraill; gwnaethant helpu i ddosbarthu'r taenwyr glud ac esbonio bod angen aros i gael y glud.

Roedd y plant yn egnïol ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau. Roeddent yn ymddiddori yn eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn llawn cymhelliant. Roedd rhai o'r gweithgareddau'n cael eu harwain gan oedolion, megis cwblhau eu gwaith crefft a oedd yn cynnwys cymylau a diferion glaw. Roeddent yn mwynhau clywed stori a gafodd ei hadrodd yn dda ar ddiwedd y prynhawn, ac roeddent yn dysgu sut i adnabod rhifau wrth chwarae 'hopscotch' yn yr awyr agored.

Roedd y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau a oedd yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau i fod yn annibynnol, megis rhoi eu platiau i gadw a gwisgo eu dillad awyr agored. Roeddent yn dysgu sut i fynd i'r toiled a golchi eu dwylo. Roedd y plant yn hapus i roi cynnig ar brofiadau newydd, megis sefyll ar y ffrâm ddringo yn yr awyr agored, gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr profiadol yn creu awyrgylch gofalgar a diogel, ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn gyson drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n dda, maent yn fodelau rôl da, ac yn defnyddio strategaethau i annog ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr proffesiynol ac ymroddedig yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae, gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant i sicrhau eu llesiant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus, gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau'n effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn dangos eu bod yn barod i gysylltu â'r asiantaethau perthnasol pe bai angen. Roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau'n cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt. Fodd bynnag, dim ond un ymarferydd sy'n meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol. Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo gan fod yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn mwynhau manteision chwarae yn yr awyr agored. Roedd yr ymarferwyr yn rhoi byrbrydau iach i'r plant hefyd, megis ffrwythau, gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Roedd yr arwynebau'n cael eu cadw'n lân ac roedd y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Roedd cofnodion ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr a'r plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng.

Roedd yr ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn llwyddiannus, mewn ffordd roeddent yn ei deall, er enghraifft, gan roi esboniadau syml, a chan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn annog y plant i fod yn gwrtais. Roedd yr ymarferwyr yn canmol ac yn dathlu ymddygiad da, megis helpu i dacluso neu fod yn garedig.

Roedd yr ymarferwyr galluog a medrus yn hybu dysgu'r plant drwy ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog, ac roeddent yn diwallu anghenion unigol, am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd. Roeddent yn rhoi gofal ymatebol, am eu bod yn casglu manylion am y plant gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru, megis gwybodaeth am eu halergeddau a'u cyflyrau meddygol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol, megis gweithgareddau gwrando a siarad, yn ogystal ag adnabod rhifau a siapiau, i helpu'r plant i ddysgu a datblygu. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol. Roedd cynlluniau ar waith, ac roedd yn bosibl ehangu'r cynlluniau wythnosol i adlewyrchu'r ddarpariaeth amrywiol.

## 3. Yr Amgylchedd — Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnig profiadau uniongyrchol i'r plant. Mae ansawdd y teganau a'r gemau yn dda, ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da ohonynt i greu amgylchedd diddorol ac addysgol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Roedd mynedfa ddiogel â chlo arni ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr gan atal mynediad diawdurdod. Nid oedd unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd y tu mewn na'r tu allan. Er enghraifft, roedd giard bysedd ar bob drws. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr wedi cael eu hadolygu, ond nid yn ddiweddar. Roedd y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y cyfleusterau'n cael eu hadolygu'n gyson er budd y plant.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol sy'n ystyriol o blant. Roedd yr ardal dan do, a oedd yn rhan o'r neuadd, yn fach, ac roedd y gweithgareddau wedi'u gosod allan ar lefel taldra'r plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Roedd yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio ar gyfer chwarae mewn dŵr a thywod, ac yn cynnwys mannau i'r plant blannu blodau a chegin fwd. Roedd cadeiriau addas i blant a byrddau plastig bach yn cael eu defnyddio. Roedd fawr ddim lle i arddangos gwaith y plant, ac roedd y plant yn mynd â'u gwaith adref gyda nhw. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio'r ardal awyr agored yn effeithiol er mwyn darparu gweithgareddau corfforol i'r plant. Roedd yr ardal awyr agored yn amrywiol ac yn cynnwys iard a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer tynnu lluniau â sialc. Roedd ffrâm ddringo bren yr ysgol yn cael ei defnyddio yn ogystal â chae'r ysgol ar gyfer chwarae pêl droed ar ôl yr ysgol. Roedd cyfleusterau addas dan do, gan gynnwys toiledau a basnau ymolchi bach i'r plant eu defnyddio'n annibynnol.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu manteisio ar ystod o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da. Roedd amrywiaeth dda o weithgareddau a theganau ar gael i sicrhau bod dewis diddorol gan y plant. Roedd yr holl deganau a'r gemau'n lân, ond roedd y cyfleusterau storio yn anodd ac yn gyfyng. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi gwneud ceisiadau am grantiau i brynu dodrefn ychwanegol i wella'r sefyllfa. Roedd yr arweinwyr wedi darparu rhywfaint o lyfrau a theganau i gynrychioli'r gymdeithas ehangach, ac roeddent yn cynllunio ar gyfer digwyddiadau amlddiwylliannol ac yn eu dathlu. Roedd y plant yn ailgylchu deunyddiau'n rheolaidd, ond byddent yn cael budd o fwy o bren a deunyddiau naturiol, gan gynnwys bwrdd natur neu fwrdd darganfod.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus, ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth da. Mae'r broses hunanwerthuso yn drylwyr ac yn ystyried pawb dan sylw, sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant. Caiff adroddiad ysgrifenedig ei lunio maes o law. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o gymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau cadarn â'r rhieni a'r ysgol ac mae'r plant yn dysgu am eu cymuned.

### Ein canfyddiadau

Mae ymdeimlad o ddiben gan y sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r person profiadol â chyfrifoldeb. Mae disgwyliadau uchel ganddynt i hybu gwelliant a sicrhau canlyniadau da i'r plant. Mae'r person â chyfrifoldeb yn effeithlon ac, o ganlyniad, gwelsom fod y tîm yn hapus ac yn gymwys. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, megis cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol, ac roedd pwyllgor cefnogol yn codi arian i brynu adnoddau ychwanegol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant effeithiol a chadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus, sydd wedi'i ymgorffori mewn ymarfer beunyddiol. Daeth hyn yn amlwg yn ystod trafodaethau â'r unigolyn cyfrifol. Caiff adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ei gwblhau maes o law. Gall y rhieni ddylanwadu ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg drwy siarad â'r ymarferwyr a thrwy wasanaethu ar y pwyllgor rheoli.

Roedd gwybodaeth dda am y plant gan yr ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol, a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon, ac roedd eu hagwedd at y plant yn dyner ac yn garedig. Roedd y dogfennau'n dangos bod proses recriwtio gadarn a thrylwyr ar waith er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cael eu cyflogi yn addas. Er enghraifft mae gan bob un ohonynt wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.

Roedd y cydberthnasau â'r rhieni yn gadarn. Roeddent yn siarad yn agored â'r ymarferwyr, ac roedd y sawl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol yr ymarferwyr a'r gwasanaeth. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol mewn modd diogel i rannu gwybodaeth. Mae cysylltiadau agos â'r ysgol, ac mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymgyfarwyddo â staff yr ysgol a'r adeilad cyn iddynt ddechrau mynd i'r ysgol.  Caiff llawer o asiantaethau allanol eu defnyddio i fanteisio ar gyngor a chyrsiau. Mae'r plant yn dod yn gyfarwydd â'r gymuned drwy deithiau cerdded rheolaidd o amgylch yr ardal.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- ehangu'r cynlluniau wythnosol;
- sicrhau bod aelod ychwanegol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r gymhareb a argymhellir o un aelod o staff i bob deg plentyn pan fydd nifer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn cynyddu;
- dod o hyd i fwy o le i arddangos gwaith y plant;
- cael mwy o adnoddau amlddiwylliannol ac adnoddau naturiol;
- adolygu'r asesiadau risg a'u dyddio unwaith y flwyddyn o leiaf. Cafodd y rhain eu dyddio ddiwethaf ar 14 Medi 2018.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 12 Mawrth 2019, rhwng 11:30 a 18:10.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, un rhiant a dau ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol am ein canfyddiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Susan Clisham** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Holly Hollingsworth** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **rhwng 2.5 ac 11 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 11.30 ac 18.00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy**<br>Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Y rheswm dros hyn yw bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac, ar hyn o bryd, nid yw'r darparwr yn bwriadu cynnig na hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.